

# **LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL YNG NGHYMURU AR ÔL YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD**

**ADRODDIAD gan y GRŴP GORCHWYL RHANDDEILIAID AR LYWODRAETHU  
AMGYLCHEDDOL**

**MAWRTH 2020**

## Crynodeb gweithredol

Ar ôl i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar [Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd](#) ddod i ben ym mis Mehefin 2019, sefydlwyd grŵp gorchwyl rhanddeiliaid i roi cyngor arbenigol a thechnegol o ran ystyried a datblygu opsiynau posibl i greu fframwaith llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru (gweler yr aelodaeth yn Atodiad A).

Cyfarfu'r Grŵp rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Ionawr 2020 i drafod argymhellion i fynd i'r afael â'r bylchau a fydd yn dod i'r amlwg o ran egwyddorion a goruchwyliaeth amgylcheddol yr UE pan na fydd cytuniadau a sefydliadau'r UE yn berthnasol i'r DU mwyach. Cynigiodd y Grŵp hefyd gyfres o fesurau dros dro i fynd i'r afael â'r bylchau a allai ddod i'r amlwg pe na bai cytundeb rhwng y DU a'r UE, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu argymhellion y Grŵp i greu fframwaith llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru. Ni chafwyd consensws unfrydol mewn rhai meysydd, ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y meysydd hyn. Mae hefyd yn nodi rhai meysydd lle mae angen gwneud mwy o waith o ran manylion penodol rhai o'r argymhellion. Y prif argymhellion yw:

1. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu o ran egwyddorion amgylcheddol a goruchwyliaeth amgylcheddol drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Dylai ymateb Cymru i'r gofynion llywodraethu amgylcheddol fynd i'r afael â'r bylchau pan fyddant yn codi o ddiwedd y cyfnod pontio (1 Ionawr 2021).
2. Egwyddorion:
  - a. Dylid darparu yn neddfwriaeth Cymru ar gyfer pedair egwyddor amgylcheddol yr UE (unioni yn y tarddle, y llygrwr sy'n talu, atal, a rhagofal). Dylai'r egwyddorion hyn gefnogi amcan cyffredinol sy'n nodi uchelgeisiau amgylcheddol Cymru, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng polisiau amgylcheddol a meysydd polisi eraill (integreiddio);
  - b. Dylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi'r egwyddorion ar waith pan fyddant yn llunio polisiau a deddfwriaeth yn hytrach na chyhoeddi datganiad polisi am yr egwyddorion;

3. Dylai'r ddyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gael ei hestyn i grŵp ehangach o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Mae angen gwneud mwy o waith i bennu hyd a lled y diffiniad o gyrff cyhoeddus, gan ystyried y diffiniad a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fydd gyrff yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.
4. Dylid datgan hawliau Confensiwn Aarhus (mynediad at wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd, a mynediad at gyfiawnder) mewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig o ran llywodraethu amgylcheddol.
5. Llywodraethu:
  - a) Dylid sefydlu Comisiwn ar gyfer yr amgylchedd, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i oruchwylio'r broses o roi'r gyfraith amgylcheddol ar waith yng Nghymru.
  - b) Dylid rhoi sicrwydd i'r Comisiwn o ran cyllid, a dylai'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r corff ac adrodd am ei waith.
  - c) Gan gydnabod maint Cymru, dylid cyfansoddi'r Comisiwn mewn ffordd sy'n briodol i Gymru. Dylai fod ganddo staff parhaol, ond dylai fod modd iddo alw ar Banel Arbenigwyr i ychwanegu at ei allu i gyflawni ei swyddogaethau hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod modd iddo weithio mewn ffordd hyblyg a throi at ystod eang o arbenigwyr. Dylid darparu i'r Comisiwn swyddogaethau priodol nid dim ond i dderbyn cwynion gan ddinasyddion Cymru ac ymateb iddynt, ond hefyd i gynnal ymchwiliadau pan fydd materion systemig wedi dod i'r amlwg drwy waith ymchwilio a chraffu. Dylai fod ganddo bwerau i uwchgyfeirio materion pan fo angen i stopio neu i atal difrod amgylcheddol.
  - d) Dylai fod modd i'r Comisiwn fynd i'r afael â materion mewn ffordd briodol, o gynghori gyrff cyhoeddus Cymru i orfodi a defnyddio prosesau adolygu amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys.
  - e) Dylai fod modd i'r Comisiwn gydweithio â chyrff eraill.

### **Gwaith i'w wneud yn y dyfodol**

Roedd y Grŵp Gorchwyl yn tybio ei bod yn werth ystyried rôl targedau ym maes llywodraethu amgylcheddol, a bod hwn yn fater i'w drafod ymhellach.

## 1 Cefndir

### 1.1 Effaith Brexit

1.1.1 Bwriedir i'r Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol helpu i lunio fframwaith llywodraethu newydd i Gymru a ddylai ddod i rym pan fydd yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (yr UE). Mae'r rhan fwyaf o gyfraith a pholisi amgylcheddol y DU yn deillio o'r UE lle mae systemau ar waith i oruchwyllo ac i orfodi cyfraith yr UE yn gyffredinol. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu ar gyfer cadw'r rhan fwyaf o'r gyfraith sylwedd hon, ond **pan na fydd systemau goruchwyllo cyfraith yr UE yn berthnasol mwyach, mae perygl y bydd bwlch llywodraethu'n agor o ran cymhwyso a gorfodi'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru, a dylid unioni'r sefyllfa honno.**

1.12 Yn ogystal, er bod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn caniatáu ar gyfer corff newydd o gyfraith yr UE a ddargedwir, nid yw'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion a goruchwyllo a oedd yn rhan o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi'u copïo i gyfraith y DU. Yn benodol, bydd yr egwyddorion amgylcheddol a nodir yn Erthygl 191 o'r Cytuniad yn cael eu colli. Mae angen penderfynu sut i wneud newidiadau llywodraethu i bolisi amgylcheddol Cymru. Paratowyd papur cynharach, *No Deal Preparedness – Environmental Governance Interim Measures Options*, ar gyfer Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 23 Hydref 2019, ac roedd yn amlinellu'r goblygiadau i lywodraethu amgylcheddol os ceir Brexit heb gytundeb. Daeth aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd i ben ar 31 Ionawr 2020, a bydd y cyfnod pontio a ddaeth yn ei sgil yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, felly **mae angen wynebu'r diffygion y cyfeirir atynt yn y papur hwn erbyn 1 Ionawr 2021. Bydd angen deddfu i roi'r argymhellion ar waith, ac os ydym am osgoi mesurau dros dro cymhleth a lletchwith, mae'r Grŵp Gorchwyl yn argymhell yn gryf y dylid deddfu yn unol â'r amserlen hon.**

1.1.3 O ystyried cyd-destun ehangach yr argyfyngau o ran byd natur a'r hinsawdd, bu'r Grŵp yn trafod pwysigrwydd datgan uchelgais i hybu gwelliant amgylcheddol ac i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bu i rai o aelodau'r Grŵp nodi â diddordeb y darpariaethau o ran pennu targedau ym Mil yr Amgylchedd 2020 San Steffan. Fodd bynnag, nid oedd y mater hwn yn rhan o gylch gwaith y Grŵp Gorchwyl, ond cytunwyd ei fod yn faes i'w drafod yn y dyfodol, ac y dylai'r Grŵp ystyried unrhyw argymhellion ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## 1.2 Rôl y Grŵp Gorchwyl

1.2.1 Drwy'r Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol, cafodd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli sefydliadau a chanddynt ddi-ddordeb yn y modd y mae'r gyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru eu dwyn ynghyd dan gadeiryddiaeth annibynnol yr Athro Robert Lee o Brifysgol Birmingham. (Ceir rhestr o'r aelodau yn **Atodiad A**.) Sefydlwyd y Grŵp i roi cyngor arbenigol a thechnegol o ran ystyried a datblygu opsiynau posibl i greu fframwaith llywodraethu amgylcheddol newydd, yn enwedig mewn meysydd lle na chafwyd consensws llwyr yn y cyfarfodydd i rhanddeiliaid na'r ymatebion i'r papur ymgynghori, *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE* a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2019. Ceir copi o gylch gorchwyl y Grŵp yn **Atodiad B**, ond yn benodol, roedd y Grŵp yn gyfrifol am yr hyn a ganlyn:

1. Mynd i'r afael â'r bylchau o ran egwyddorion amgylcheddol, gan adeiladu ar fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru;
2. Datblygu ymhellach brif elfennau fframwaith llywodraethu amgylcheddol cydlynol ac effeithiol i Gymru sy'n cydweddu â'r systemau sy'n bodoli eisoes;
3. Llunio mesurau dros dro posibl lle y gall fod angen mesurau o'r fath.

Mae'r Grŵp Gorchwyl cyfan eisoes wedi mynd i'r afael â thasg (3) uchod o ran mesurau dros dro os ceir Brexit heb gytundeb, a hynny mewn papur ar *fesurau dros dro tymor byr y cyfeirir ato uchod* (1.1.2). Mae'r Grŵp Gorchwyl hefyd wedi adolygu tasgau (1) a (2) yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan geisio, lle bo modd, gweithio mewn cytgordd â'r ymatebion hynny lle'r oedd yn ymddangos bod consensws clir a lle nad oedd gwrthwynebiad egwyddorol. Drwy wneud hyn, bu modd llunio agenda eang ar gyfer gwaith pellach. I fynd i'r afael â gweddill y cylch gorchwyl, penderfynwyd cynnull tri is-grŵp o'r Grŵp Gorchwyl i drin a thrafod y materion a ganlyn: (i) egwyddorion amgylcheddol; (ii) swyddogaethau unrhyw gorff llywodraethu; a (iii) ffurf a statws cyfreithiol unrhyw gorff o'r fath.

## 2 Egwyddorion amgylcheddol

### 2.1 Amcan cyffredinol

2.1.1 Cytunwyd y **dylai amcan wedi'i eirio'n ofalus ddatgan yr uchelgais ar gyfer amgylchedd Cymru ac eistedd uwchlaw'r bensaernïaeth llywodraethu amgylcheddol**

**bresennol** (gweler ffigur 1 isod). Gallai amcan cyffredinol roi ffocws i'r gwaith o lunio polisïau sy'n ymdebygu i'r ffocws a ddarperir ar hyn o bryd gan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd sy'n pennu'r fframwaith i roi pedair egwyddor amgylcheddol yr UE ar waith (gweler ffigur 1 isod). Ymhlith y prif elfennau i'w cynnwys yn yr amcan mae'r **ffordd y bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy ddiogelu'r amgylchedd at lefel uchel**, ynghyd â'r nod o integreiddio polisïau amgylcheddol ym mhob maes polisi, ac ymrwymiad i adeiladu ar y safonau amgylcheddol ac i gynnal a gwella amgylchedd Cymru. Bydd yr amcan hwn yn llywio gwaith y corff llywodraethu newydd a Gweinidogion Cymru, a bydd angen egluro safle'r corff newydd yn y fframwaith cyfreithiol presennol a rôl y corff hwnnw o ran dyletswyddau cyfreithiol dan y fframwaith hwnnw.

2.1.2 Gall fod yn werth cadw mewn cof y gall fod achlysuron, dan yr offerynnau statudol sy'n cywiro cyfraith yr UE a ddargedwir, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, yn ceisio cyflawni swyddogaethau i Gymru. Pe bai hynny'n digwydd, byddai unrhyw gydsyniad yn dibynnu'n rhannol ar ddatgan egwyddorion cyfreithiol Cymru yn gywir. Byddai'n ddefnyddiol datgan egwyddorion ac amcanion cyfraith amgylcheddol Cymru yn neddfwriaeth Cymru, gan gynnwys ymrwymadau i ddatblygu cynaliadwy ac i integreiddio polisïau amgylcheddol, i sicrhau eu bod yn glir i Weinidogion y Goron sy'n gweithredu yng Nghymru.

## **2.2 Egwyddorion amgylcheddol Cymru ar ôl ymadael â'r UE**

2.2.1 Bu'r Grŵp Gorchwyl yn ystyried sut y mae angen ailddatgan egwyddorion amgylcheddol yn neddfwriaeth Cymru. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r Grŵp Gorchwyl yn cytuno'n fras y **dylai'r pedair prif egwyddor amgylcheddol a geir yn Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd osod sylfaen ar gyfer cyfraith a pholisi Cymru; yr egwyddorion hynny yw:**

- **yr egwyddor ragofalus;**
- **yr egwyddor atal;**
- **yr egwyddor y dylid, fel blaenoriaeth, unioni difrod amgylcheddol yn y tarddle;**
- **yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.**

Bu'r Grŵp hefyd yn ystyried a oedd angen datgan egwyddorion eraill yn neddfwriaeth Cymru. Bu rhywfaint o drafod a ddylid cynnwys datblygu cynaliadwy yn eu plith, ond roedd y

Grŵp Gorchwyl yn teimlo bod yr egwyddor hon eisoes wedi'i datgan yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a thrwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o ran y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cytunodd y Grŵp na fyddai cynnwys datblygu cynaliadwy fel egwyddor yn ychwanegu llawer, ac y gallai wneud dim mwy na pheri dryswch.

2.2.2 Integreiddio oedd un o'r egwyddorion posibl eraill a drafodwyd. Er bod y Grŵp Gorchwyl yn cytuno y dylid integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i'r gwaith o lunio polisiau ym mhob sector yng Nghymru, roedd y mwyafrif yn teimlo mai'r lle gorau i gyfeirio at integreiddio oedd yr amcan. Cydnabu'r Grŵp fod integreiddio eisoes ar waith yn neddfwriaeth Cymru gan mai sail Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw cynllunio a rheoli'r adnoddau naturiol y mae Cymru'n dibynnu arnynt mewn ffordd gynaliadwy ac integredig. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn mynd ati i lunio eu hamcanion llesiant mewn ffordd integredig, gan gydnabod bod llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ddibynnol ar ei gilydd. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy Ddeddf yn rhan o ddull systemig ac integredig. Roedd mwyafrif aelodau'r Grŵp yn cytuno y gallai'r egwyddorion amgylcheddol fod yn hwb i integreiddio, ond nad oedd angen cynnwys egwyddor integreiddio. Serch hynny, roeddent yn teimlo y **dylid achub ar y cyfle i ategu eglurder ac effeithiolrwydd integreiddio yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, a hynny o bosibl o fewn yr amcan cyffredinol a ddylai beri iddi fod yn ofynnol integreiddio gofynion amgylcheddol mewn meysydd polisi eraill.**

2.2.3 Treuliyd cryn amser yn trafod yr egwyddor na ddylid llithro'n ôl, sef ymrwymiad i beidio â gwanhau'r mesurau i ddiogelu'r amgylchedd a ddarperir gan safonau presennol yr UE. Roedd yr awgrym y dylid cynnwys yr egwyddor hon mewn deddfwriaeth yn deillio o'r pryderon y gallai'r math o Brexit, a'r trafodaethau masnach yn ei sgil, beryglu'r safonau a'r targedau presennol i ddiogelu'r amgylchedd. Ar y llaw arall, roedd rhai o aelodau'r Is-grŵp yn amau a oedd hon yn 'egwyddor' a fyddai'r un mor glir â'r rheini a gâi eu copïo o Erthygl 191(2) y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Mynegwyd y farn hefyd y gallai Cymru fod am ddefnyddio metrigau gwahanol yn y dyfodol i fodloni safonau neu dargedau mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn hanesyddol yn yr UE, er enghraifft i ddatblygu ymhellach y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Roedd rhai'n

teimlo y gallai ymrwymiad i beidio â llithro'n ôl greu rhywfaint o ddiogi lle y gallai rhai dybio bod cynnal safonau amgylcheddol yn hytrach na'u gwella yn ddigon.

2.2.4 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan yn glir bod angen i Weinidogion Cymru gydymffurfio â gofynion y gyfraith ryngwladol. Gall hyn gynnwys cytuniadau a wneir yn y dyfodol rhwng dwy neu ragor o wledydd o ran masnach ryngwladol. Pe bai cynigion yn cael eu gwneud i newid safonau amgylcheddol (boed y rheini'n deillio o'r UE neu wedi'u pennu'n ddomestig) i osgoi ystumio marchnad fewnol y DU, gallai sefyllfaoedd godi lle y gallai hwn ddod yn fater i lywodraethau'r DU ei drafod i ddod i gytundeb. Fodd bynnag, gallai Llywodraeth y DU gyhoeddi rheoliadau yn unol ag adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 mewn ymgais i rwystro'r deddfwrfeydd datganoledig rhag deddfu'n groes i'r cyfyngiadau a bennir gan Weinidog y Goron mewn rheoliadau (yr hyn a elwir yn "Orchymyn Adran 12"). Mae hyn yn awgrymu na fyddai modd gwarantu'n llwyr unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i beidio â llithro'n ôl o ystyried y modd y bydd marchnad fewnol y DU yn gweithredu.

2.2.5 Roedd y Grŵp yn gobeithio ac yn disgwyl na fyddai'r safonau amgylcheddol yn cael eu gwanhau o ganlyniad i Brexit, ac y byddai Cymru'n parhau i adeiladu ar ei safonau, gan gadw mewn cof y newidiadau y gall fod angen eu hystyried yng ngoleuni'r goblygiadau i rai sectorau yn sgil cytundebau masnach newydd a gweithrediad marchnad fewnol newydd y DU. Mynegwyd amheumon ynghylch cynnwys yr egwyddor na ddylid llithro'n ôl mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Roedd mwyafrif aelodau'r Grŵp yn gwrthwynebu cynnwys y gofyniad na ddylid llithro'n ôl fel egwyddor. Yn hytrach, roeddent yn ffafrio amcan cyffredinol wedi'i eirio'n briodol a fydd yn cyfleu ysbryd y cysyniad hwnnw ac yn mynegi uchelgais uwch i Gymru.

2.2.6 Daethpwyd i'r casgliad y dylid ailddatgan pedair egwyddor amgylcheddol yr UE o Erthygl 191, sef yr hyn a drafodwyd yn yr ymgynghoriad, yn neddfwriaeth Cymru ac y **dylai'r egwyddorion hyn barhau i osod sylfaen ar gyfer cyfraith a pholisi Cymru.**

2.2.7 Bu'r Grŵp yn ystyried a ddylai'r egwyddorion hyn fod yn destun datganiad polisi, yn debyg i'r hyn y darperir ar ei gyfer yng nghymal 17(1) o Fil yr Amgylchedd 2020 sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad o'r fath. Ar y cyfan, tybiwyd **nad oes angen llunio datganiad o'r egwyddorion hyn.** Mae corff rhesymol o gyfreitheg yn y



gyfraith ryngwladol a chyfraith yr UE ynghylch ystyr yr egwyddorion hyn, ac maent eisoes yn cael eu cynrychioli'n dda yn sylwedd y gyfraith yng Nghymru. Deallir bod sgysiau'n mynd rhagddynt gyda'r gwahanol weinyddiaethau ynghylch cael cyfres gyson o egwyddorion i hwyluso cysondeb lle bo'n briodol. Roedd y Grŵp yn croesawu hyn oherwydd iddo fynegi pryder y gallai datganiad o egwyddorion Lloegr wyro oddi wrth ein dealltwriaeth bresennol o ystyr yr egwyddorion, neu ymhelaethu arni. Mae hwn yn fater arbennig o bwysig o gofio bod Cymru a Lloegr yn rhannu'r un awdurdodaeth, a dywedodd y Grŵp ei fod yn awyddus i gadw cysondeb, ar draws y pedair gweinyddiaeth, o ran dealltwriaeth gyffredin o'r pedair egwyddor amgylcheddol, hyd yn oed os caiff y modd y mae'r egwyddorion hyn yn gweithio ei ddisgrifio ymhellach gan deddfwriaeth Cymru maes o law.

2.2.8 Mae cwestiwn hefyd yn codi o ran y berthynas rhwng yr amcan a'r egwyddorion, a'r berthynas rhyngddynt a fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru. Dangosir hyn yn Ffigur 1. Bydd yr amcan cyffredinol yn datgan uchelgais Cymru ar gyfer yr amgylchedd, uchelgais yr eir ati i'w gyflawni drwy roi'r egwyddorion amgylcheddol ar waith, a bydd yn cynnwys y nod o gynnal a gwella'r amgylchedd drwy bolisïau yng Nghymru. Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai pedair egwyddor amgylcheddol yr UE barhau i eistedd uwchlaw egwyddorion presennol Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a gyflwynwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), ac yna gosod sail ar eu cyfer.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth hefyd am y cyrff hynny y dylai fod yn ofynnol iddynt roi'r egwyddorion ar waith, ac roedd rhai aelodau o'r Grŵp yn tybio y dylai'r gofyniad fod yn berthnasol i bob corff cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn cytuno y **dylai'r pedair egwyddor (a'r amcan cyffredinol) fod yn berthnasol i Weinidogion Cymru pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau i lunio polisiau a deddfau er mwyn iddynt osod sail ar gyfer deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.** I gynnwys yr egwyddorion hyn yng nghyfraith Cymru, bydd angen dealltwriaeth glir o'u hyd a'u lled.

**Ffigur 1**



2.2.9 Cyflwynwyd deddfwriaeth amgylcheddol bresennol Cymru dan ymbarél amcanion ac egwyddorion Cytuniad yr UE, felly o’u hailddatgan yng nghyfraith Cymru, bydd yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymwys a bod eu buddion hefyd yn parhau. Gallai’r strwythur diwygiedig helpu i bennu’r cysylltiadau rhwng deddfwriaeth bresennol Cymru yn y maes hwn, gan gynnwys cyflwyno amcan ac egwyddorion. Byddai hefyd yn caniatáu i amcanion a nodau sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gael eu hailddatgan, gan fod y grŵp yn teimlo bod y broses o’u rhoi ar waith yn dal i fynd rhagddi. O safbwynt ehangach, i wneud hyn, bydd angen mynd ati i newid diwylliant yn hytrach na phennu ffyrdd pendant o weithio. Nid yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) fel y cyfryw yn fframwaith llywodraethu amgylcheddol, ond dylid ei ystyried fel glasbrint ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y gellir ei ddatblygu dro ar ôl tro dros gyfnod. I roi’r egwyddorion ar waith yng nghyd-destun y trefniadau llywodraethu ar ôl Brexit, felly, bydd angen sicrhau bod y dyletswyddau perthnasol yn cael eu rhoi ar waith yn ehangach. Ar y sail hon, tybiwyd ei bod yn hanfodol atgyfnerthu hygyrchedd ac eglurder yr egwyddorion ymhlith rhanddeiliaid. O gael strwythur sy’n dechrau gydag amcanion ac egwyddorion, gallai hwyluso dull systematig o weithredu sy’n osgoi gorgymhlethu’r ddeddfwriaeth bresennol. Mae’r pedair egwyddor yn rhoi eglurder i unrhyw drafodaethau â gweinyddiaethau eraill y DU i bennu dull cyson. Ni fyddai modd inni ddibynnu ar roi’r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith yn unig yn y cyd-destun hwn oherwydd nad ydynt ond yn datgan un

egwyddor (yr egwyddor atal) ac yn adlewyrchu camau allweddol egwyddor arall (yr egwyddor ragofalus). Bydd yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn dal i fod yn gymwys ar lefel weithredol, ochr yn ochr â'r pedair egwyddor amgylcheddol hyn a fydd yn gweithredu ar lefel bolisi uwch. Dylai'r fframwaith hwn roi mwy o eglurder o ran y cysylltiadau rhwng deddfau presennol Cymru yn y maes hwn.

### **2.3 Y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**

2.3.1 Rhywbeth sy'n perthyn yn agos i'r fframwaith hwn, felly, yw'r cwestiwn a ofynnwyd yn y papur ymgynghori ynghylch a ddylid estyn y dyletswyddau i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ehangach i gyrff cyhoeddus Cymru ac, os felly, i ba gyrff cyhoeddus. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn derbyn yr achos dros estyn y dyletswyddau hyn, ond roedd angen ystyried y cyrff cyhoeddus priodol o gofio'r cyfeiriadau at y diffiniad o 'gorff cyhoeddus' a geir yn adran 6 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r diffiniad eang o 'awdurdod cyhoeddus' a geir yn adran 6(9) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n cynnwys nifer fawr o 'gyrff a gadwyd yn ôl' dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar ôl trafod, cytunodd mwyafrif aelodau'r Is-grŵp ar Egwyddorion y **dylai'r dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru pan fydd y cyrff hynny'n cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd** (er enghraifft i reoli eu hystadau). Roedd peth awydd i osgoi unrhyw ddyblygu mewn sefyllfaoedd lle y mae rheoleiddwyr domestig eisoes yn ymgymryd â gwaith gorfodi mewn cyrff preifat. Bydd angen mynegi hyn yn glir mewn deddfwriaeth i sicrhau nad oes gan y cyrff dan sylw (gan gynnwys, er enghraifft, ymgymeryddwyr a rheoleiddwyr statudol) unrhyw amheuan o ran pryd y mae'r ddyletswydd yn berthnasol. Derbyniwyd y gall fod angen geirio hyn yn ofalus, ond mae mynd ati i estyn y ddyletswydd yn gydnaws â'r amcan cyffredinol ac yn adlewyrchu cytundeb o ran sut y gellir mynd i'r afael â'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae hwn yn faes lle y bydd angen gwneud mwy o waith i egluro cwrdd estynedig y ddyletswydd hon.

### **2.4 Crynodeb**

2.4.1 Dylid datgan pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yn neddfwriaeth Cymru a dylent ategu amcan cyffredinol sy'n nodi'n glir uchelgais Cymru o ran diogelu'r amgylchedd at lefel

uchel, gan gynnwys y nod o gynnal a gwella'r amgylchedd drwy bolisiau Cymru i gyfrannu at gynaliadwyedd. Bydd y pwyslais hwn yn ceisio diogelu, lle bo modd, rhag gwanhau safonau amgylcheddol yng Nghymru (neu lithro'n ôl). Ni chafodd integreiddio ei gynnwys fel egwyddor ar wahân, ond tybiwyd y dylai unrhyw Fil ddatgan gwerth sicrhau bod yr amgylchedd wrth galon y broses o lunio polisiau ym mhob sector. Roedd dyhead i gadw cysondeb o ran ein dealltwriaeth o'r pedair egwyddor amgylcheddol ar draws y DU.

### 3 Llywodraethu amgylcheddol

#### 3.1 Y sefyllfa yn yr UE

3.1.1 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn goruchwyllo'r broses o roi cyfraith yr UE, gan gynnwys y gyfraith amgylcheddol, ar waith ar ran yr Aelod-wladwriaethau, gan ddibynnu yn ôl y gofyn ar wybodaeth, cyflwyniadau ac adroddiadau gan y gwladwriaethau hynny, ochr yn ochr â'i dystiolaeth ei hun a'r dystiolaeth a baratoir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. Gall unigolion a sefydliadau o'r Aelod-wladwriaethau gofrestru cwynion ynghylch achosion o dorri cyfraith yr UE. Gall hyn arwain at ymchwiliad gan Gomisiwn yr UE ac at gamau gorfodi os yw'n ymddangos bod Aelod-wladwriaeth wedi methu â rhoi cyfraith yr UE ar waith. Gellir dwyn achosion am dorri cyfraith yr UE gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, gyda mesurau dros dro'n cael eu rhoi ar waith cyn dyfarniad llawn a dirwyon am ddiffyg cydymffurfio pellach. Dyma hyd a lled y gwaith goruchwyllo a chraffu a fydd yn dod i ben yn sgil ymadael â'r UE. O'r herwydd, gofynnwyd i'r Grŵp Gorchwyl ystyried:

- Pa fath o system neu fodel llywodraethu fyddai'n addas i Gymru?
  - Gan ystyried y systemau atebolrwydd sydd eisoes ar waith yng Nghymru – a oes gan unrhyw rai o'r systemau presennol rôl i'w chwarae yn y model llywodraethu hwn?
  - Ymhle mae'r system neu'r model newydd yn ffitio i'r dirwedd bresennol?
- Sut y dylid cyfansoddi model o'r fath?
  - Gan ystyried y mathau o systemau llywodraethu, eu pwrpas, eu ffurf a'u cyfansoddiad.

3.1.2 Fel yr eglurwyd uchod, ar ôl cyfarfodydd cychwynnol y Grŵp cyfan, ffurfiwyd dau is-grŵp arall i ystyried y swyddogaethau y byddai unrhyw gorff goruchwyllo newydd yn eu cyflawni, a natur y corff hwnnw – rhywbeth a ddisgrifiwyd fel ei 'ffurf' i awgrymu cwestiynau am ei statws cyfansoddiadol a'i *modus operandi*.

## 3.2 Swyddogaethau

3.2.1 Gan ddechrau gyda swyddogaethau, roedd cwestiwn 5 o'r papur ymgynghori yn gofyn i bobl roi eu barn ar y bylchau llywodraethu a allai godi yn sgil ymadael â'r UE. Yng nghyfarfod cyntaf yr is-grŵp i drafod swyddogaethau, lluniwyd rhestr o'r prif swyddogaethau ar sail yr hyn yr ydym eisoes yn ei wybod am fframwaith yr UE, ymatebion rhanddeiliaid ac ymgynghoreion, ac adolygiadau o fframweithiau llywodraethu presennol Cymru. Roedd y rhestr fel a ganlyn:

1. *Cynghori*: Pennwyd dwy swyddogaeth gynghori benodol:
  - a. Mynd i'r afael â chwynion – I ddatrys cwynion yn gynnar, neu i osgoi cwynion ar fater penodol, gallai'r corff roi cyngor i gyrff cyhoeddus Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith amgylcheddol. Yn union ar ôl ymadael â'r UE, gall fod angen mwy o eglurder oherwydd bydd y fframwaith deddfwriaethol yn llawer mwy cymhleth ar ôl Brexit ar ffurf cyfraith a ddargedwir wedi'i chywiro. Tybiwyd y gall fod angen ystyried cynllunio swyddogaethau cynghori'r corff mewn ffordd gytbwys oherwydd bod perygl mawr y gallai buddiannau wrthdaro os bydd corff yn goruchwyllo'r broses o roi cyfraith y mae eisoes wedi cynghori arni ar waith. Fodd bynnag, tybiwyd y gallai'r swyddogaeth gynghori gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gydymffurfio, a thrwy hynny, atal difrod i'r amgylchedd. Mater arall a drafodwyd oedd sicrhau nad yw'r corff yn dyblygu swyddogaethau cynghori cyrff eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, nac yn gwrthdaro â'r swyddogaethau hynny;
  - b. Materion systemig – Gallai'r corff bennu materion systemig o ran y modd y mae'r gyfraith a pholisïau amgylcheddol yn gweithio o ganlyniad i'w waith i ymdrin â chwynion a swyddogaethau eraill, a gall fod am gynnal ymchwiliadau pellach cyn gwneud argymhellion (isod).
2. *Ymdrin â chwynion*: Roedd y grŵp yn cytuno â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn nodi y dylid cadw gweithdrefn gwyno, ond roedd hefyd yn argymhell y dylai'r weithdrefn fod yn agored ac yn dryloyw. Roedd y papur dewisiadau ar y *Mesurau Dros Dro* eisoes wedi rhoi sylw i ystyriaethau o'r fath. Cytunwyd y bydd angen eglurder o ran testun cwynion a chylch gwaith y corff i sicrhau na fydd yn gwrthdaro ag awdurdodaeth asiantaethau eraill ac i sicrhau bod modd ailgyfeirio cwynion yn ôl y gofyn. Mater i'r corff fydd amlinellu'r weithdrefn ar gyfer gwneud cwynion. Bydd angen i'r corff ysgwyddo dyletswyddau penodol i ymchwilio i gwynion sydd o bwys yn ei dyb ef. I fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi ar hyn o bryd o fewn strwythur presennol yr UE, bu i'r Grŵp hefyd argymhell y dylai achwynwyr gael gwybod am hynt eu cwynion.
3. *Ymchwilio*: I ymdrin â chwynion, bydd o reidrwydd angen ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil, a gall fod angen trosglwyddo gwybodaeth i'r corff. Tybiwyd y gallai'r

corff sgrinio cwynion o'r dechrau'n deg i bennu'r rheini lle y gall fod angen cymryd camau pellach, ond i'r gwrthwyneb, gallai benderfynu cyfuno cwynion penodol os ydynt yn ymwneud â materion tebyg neu'n ymddangos fel pe baent yn cyfeirio at broblemau systemig. Wrth drafod, cytunodd y mwyafrif y dylai fod modd i'r corff gynnal ymchwiliadau o'i ben a'i bastwn ei hun, o bosibl o ganlyniad i faterion sy'n dod i'r amlwg drwy'r swyddogaeth fonitro. Pan fydd wedi cael pwerau statudol, gall y corff ei hun benderfynu sut y mae am fwrw ymlaen â'i ymchwiliadau.

4. *Craffu*: Mae craffu'n awgrymu y dylai'r gwaith o archwilio neu oruchwylio materion llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru fod yn seiliedig ar waith arsylwi critigol ar y modd y mae'r drefn yn gweithio. Gall y corff fod am bennu tueddiadau neu ddatblygiadau o ran y modd y mae'r gyfraith a pholisïau amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru ac ymchwilio ymhellach iddynt os oes cyfle iddynt osod sail ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru.
5. *Gorfodi*: Tybiwyd bod angen atgynhyrchu pwerau gorfodi'r Comisiwn i sicrhau ac i gymell sylfaen ar gyfer camau unioni. Roedd y grŵp yn gobeithio y gallai fod modd bodloni'r amcanion gorfodi drwy gamau unioni cynnar. Roedd yn teimlo ei fod yn ffafrio sefyllfa lle y byddai cyrff cyhoeddus yn cymryd camau unioni cynnar yn hytrach na wynebu camau gorfodi, o bosibl ar sail ymgymeriadau y cytunir arnynt o ran y camau unioni i'w cymryd. Fodd bynnag, gall fod angen i lys neu dribiwnlys oruchwylio penderfyniadau'r corff yn ystod camau olaf y drefn orfodi (gweler isod).
6. *Gweithredu*: Pan fo cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ysgwyddo dyletswyddau statudol, dylai'r corff oruchwylio'r broses o roi'r gyfraith amgylcheddol ar waith yn effeithiol. Derbyniwyd y bydd angen i hyn fod yn rhan o drafodaeth bellach am gylchoedd gwaith y corff, ac efallai mai'r ffordd orau o wneud hyn yn ymarferol fydd drwy gydweithredu rhagweithiol ar sail memoranda cyd-ddealltwriaeth â chyrff ac asiantaethau eraill.
7. *Adrodd*: Os bwriedir i'r corff dderbyn cwynion neu wybodaeth arall yn rheolaidd, tybiwyd y gallai roi adroddiadau am faterion sy'n peri pryder. Dylai fod gan y corff newydd ryddid i lunio ei raglen waith ei hun (gan gofio ei adnoddau) a bydd angen iddo baratoi Adroddiad Blynyddol i'r Senedd fel rhan o'i arferion gwaith tryloyw.
8. *Egwyddorion*: Mae'r ystyriaeth uchod yn bwydo i'r materion llywodraethu ehangach y bu'r Grŵp Gorchwyl yn eu hystyried, fel yr amcanion a'r egwyddorion amgylcheddol. Dylid adolygu'r modd y maent yn gweithredu i olrhain y modd y mae'r egwyddorion hyn yn gweithio ac yn cael eu bodloni.
9. *Ffurio partneriaethau*: Cytunodd y Grŵp Gorchwyl y dylai corff Cymru, yn ôl y gofyn, ffurfio partneriaethau â chyrff arbenigol a chyfatebol ledled y DU (e.e. Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn Lloegr) a Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

3.2.2 **Dylai'r corff llywodraethu newydd fynd i'r afael â'r naw swyddogaeth** ond gall fod angen eu blaenoriaethu. Dylai blaenoriaethu fod yn fater i'r corff ei hun, yn hytrach na statud, yng ngoleuni profiad fel hyd a lled y portffolio ymdrin â chwynion, adnoddau'r corff, a thirwedd y gyfraith amgylcheddol ar ôl Brexit. Tybiwyd y gallai cylch gwaith y corff wneud mwy na dim ond sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, ond bydd angen drafftio gofalus i bennu swyddogaethau hanfodol a swyddogaethau ategol y corff, gan sicrhau bod digon o gyfle i'r corff ei hun bennu ei flaenoriaethau. Bydd angen adeiladu'r corff newydd drwy broses ailadroddus, a gall swyddogaethau hanfodol y corff newid dros gyfnod. O sefydlu corff newydd, bydd yn caniatáu i rywfaent o ystyriaeth gael ei rhoi i'r modd y mae'n cydweddu â systemau llywodraeth presennol Cymru a'r DU.

3.2.3 Nododd y Grŵp Gorchwyl hefyd y gall fod cryn dipyn o waith ynghlwm wrth sefydlu'r corff oherwydd y bydd angen llunio cytundebau â chyrff eraill a allai fod yn cyflawni swyddogaethau tebyg ac oherwydd y bydd angen i'r cyrff hynny gydweithio â'i gilydd. Efallai mai'r ffordd orau o'u llunio fyddai drwy i'r cyrff eu hunain ddod i ddealltwriaeth â'i gilydd. Bydd angen egwyddorion clir a thryloyw ar y corff o ran y modd y bydd yn gweithredu. Yn yr un modd, gall gymryd peth amser i lunio gweithdrefn gwyno ag amserlenni, gweithdrefnau datrys a gweithdrefnau adrodd priodol, ond bydd yn well i'r corff ei hun ei llunio. Bydd angen trafod ymhellach i bennu'r systemau hanfodol y bydd eu hangen i fynd i'r afael â materion yn Lloegr sy'n effeithio'n negyddol ar amgylchedd Cymru ac, fel y dywedwyd mewn man arall, bydd angen ystyried yn ofalus y swyddogaethau cynghori sy'n ymwneud â chydymffurfio a datrys cwynion. Gall hefyd gymryd amser i feithrin partneriaethau, ond, yn ddiddorol, mae Bil yr Amgylchedd 2020 yn rhagweld yng nghymal 24(4) y bydd angen i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a sefydlir dan y Bil gydweithio â chyrff eraill datganoledig. Dylid rhoi'r ddarpariaeth gyfatebol yn neddfwriaeth Cymru. Roedd y grŵp yn tybio y bydd angen i'r corff arfer ei swyddogaethau mewn ffordd dryloyw, ac o fewn amserlenni penodedig, i osgoi ansicrwydd gweinyddol a dryswch/dyblygu adnoddau.

3.2.4 Bydd angen ystyried y mater hwn yn ofalus, ynghyd â maint y corff newydd a'r arbenigedd y bydd ei angen arno. **Er y bydd angen staff amser llawn ar y corff newydd (er enghraifft i ymchwilio i gwynion a'u datrys), gall fod modd sefydlu cronfa o arbenigwyr, fel panel arbenigwyr, i'w ategu**, ac roedd y grŵp yn argymhell yn gryf y dylid gwneud hyn. Bydd y panel arbenigwyr yn sicrhau bod modd i'r corff gael gafael ar gyngor arbenigol yn ôl y

gofyn er mwyn iddo gyflawni swyddogaethau penodol (fel paratoi adroddiadau). Bydd angen ystyried hyn ochr yn ochr ag adnoddau'r 'corff' newydd a hyd a lled y gweithgarwch y dylid ei ystyried wrth bennu datrysiadau posibl sy'n briodol i Gymru. Roedd yr is-grŵp yn teimlo ei bod yn hollbwysig sicrhau nad yw'r gronfa o arbenigwyr sydd ar gael i gynorthwyo'r corff yn gyfyngedig, a hynny i sicrhau bod modd dangos ei fod yn gorff annibynnol. Bydd angen i'r corff sefydlu'r broses ddethol i atal buddiannau rhag gwrthdaro.

3.2.5 Yn sgil trafodaeth bur helaeth am swyddogaethau, daeth dau fater i'r amlwg a oedd yn peri pryder. Y mater cyntaf oedd bod ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau rheoleiddio, angen rhywfaint o sicrwydd ynghylch yr hyn y gall ac na all corff ei wneud. Er y bydd y corff yn annibynnol (isod), dylai'r modd y mae'r 'corff' yn gweithio fod yn agored i rywfaint o reolaeth, a bydd angen iddo fod yn atebol i'r Senedd. Er y rhagwelir y gallai'r corff fod yn destun adolygiadau barnwrol, gall fod angen rhai prosesau symlach i gwestiynu'r penderfyniadau a wneir ganddo. Gall fod modd darparu ar gyfer hyn yn rhannol drwy ddefnyddio strwythur y tribiwnlysoedd (isod yn 3.3).

3.2.6 Cafwyd trafodaeth faith am hyd a lled unrhyw swyddogaeth gynghori. Roedd hi'n amlwg y gallai cwynion ac iddynt batrwm cyson beri i'r corff fynd ati, yn briodol, i ymdrin â phroblemau llywodraethu systemig a'u hadolygu, er enghraifft, yng ngoleuni ei brofiad o ymdrin â chwynion. Derbyniwyd y gall fod manteision o gael swyddogaeth gynghori y gall ystod eang o gyrff Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ei defnyddio yn ôl y galw yng nghyd-destun materion amgylcheddol. Drwy hyn, bydd modd i'r corff roi cyngor cynnar am y peryglon o fethu â chydymffurfio, gan leihau'r perygl y bydd hynny'n digwydd, lleihau'r difrod cysylltiedig i'r amgylchedd, a lleihau nifer y cwynion (a fyddai'n debygol o fod wedi dod i law yn sgil methu â chydymffurfio). Ar yr un pryd, tybiwyd y gallai buddiannau corff sy'n ysgwyddo swyddogaeth orfodi wrthdaro pe bai hefyd yn rhoi cyngor ynghylch polisiau. Nodwyd bod gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd y cynigir ei sefydlu dan Fil yr Amgylchedd 2020 gangen bolisi oherwydd bod ganddi bŵer i roi cyngor ar newidiadau i'r gyfraith amgylcheddol yng ngoleuni ei swyddogaethau monitro ac adrodd. Gellir gweld rhinweddau'r model hwn, ond bydd angen pennu ffiniau clir iawn i sicrhau na cheir unrhyw ddryswch o ran cyflawni swyddogaethau'n briodol. Fel rhan o'i swyddogaethau statudol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor, ac yn codi amdano, ond nid yw buddiannau o reidrwydd yn gwrthdaro yn yr achos hwn oherwydd byddai'r corff yn cynghori Cyfoeth



Naturiol Cymru ei hun ond nid y math o gorff y mae yntau fel arfer yn ei gynghori. Serch hynny, mae manwl gywirdeb yn bwysig fan hyn, ac mae angen iddi fod yn glir i'r gymdeithas sifil ac i gyrff cyhoeddus Cymru yn union pa swyddogaethau y bydd y corff yn eu cyflawni.

### 3.3 Ffurf

**3.3.1 Bydd angen i unrhyw gorff newydd fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud gan y Senedd. Bydd angen cyllideb sicr arno** dros gyfnod estynedig, yn debyg i'r gyllideb a ddarperir i Swyddfa Archwilio Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio perfformiad y corff.

3.3.2 Dechreuwyd trafod ffurf y corff newydd drwy lunio rhestr o nodweddion posibl llywodraethu da ar sail yr hyn a ddywedwyd yn y papur am y *Mesurau Dros Dro*. Y nodweddion hynny oedd:

1. Annibyniaeth;
2. Y gallu i gyflawni swyddogaethau niferus;
3. Ei le yn y seilwaith presennol;
4. A oes angen deddfwriaeth i fwrw ymlaen;
5. Y gallu i'w roi ar waith/tracio o ddechrau'r broses i'w diwedd;
6. Cyfalaf gwleidyddol digonol;
7. Cwmpas;
8. Arbenigedd;
9. Effeithiolrwydd.

3.3.3 Yna, bu inni ystyried ffurfiau amrywiol corff a allai gyflawni'r swyddogaethau a oedd yn deillio o waith yr Is-grŵp Swyddogaethau. Yn eu plith roedd:

- (a) Corff archwilio
- (b) Comisiwn
- (c) Comisiynydd
- (d) Panel Arbenigwyr Annibynnol
- (e) Model â swyddogaethau ar wahân (gwahanol swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn gwahanol leoedd)
- (f) Model hyb (corff lle mae swyddogaethau penodol wedi'u dirprwyo)
- (g) Swyddfa
- (h) Is-bwyllgor o'r Senedd neu gorff tebyg
- (i) Tribiwnlys

3.3.4 Heb roi esboniad hir o'r modelau a ddiystyrwyd gan yr Is-grŵp Ffurf, y ffurf a sgoriodd uchaf o ran y meini prawf llywodraethu, gyda'i sgôr ddwywaith cymaint â'r

dewisiadau eraill, oedd y syniad o Gomisiwn. I egluro'r gwahaniaeth rhwng Comisiynydd a Chomisiwn, y model y cyfeiriwyd ato'n aml wrth drafod oedd model y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Nid yw'n gymhariaeth berffaith gan fod gwaith y comisiwn hwnnw i orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y sector preifat, ond tybiwyd ei bod yn gymhariaeth ddeniadol oherwydd ei fod yn ysgwyddo swyddogaethau niferus ac yn benodol yn hybu cydraddoldeb hefyd. Dylai Comisiwn arddangos y rhinweddau y cyfeirir atynt yn 3.3.2 (uchod) a dylai gael ei weld fel eiriolwr ar ran yr amgylchedd. **Tybiwyd hefyd y byddai modd cyfansoddi Comisiwn yr Amgylchedd ar raddfa ac mewn modd sy'n briodol i Gymru. Gallai alw ar y Panel Arbenigwyr i ychwanegu at ei allu i gyflawni ei swyddogaethau, gan ganiatáu iddo weithio mewn ffordd hyblyg a chaniatáu i'r corff alw ar ystod eang o arbenigwyr**, o bosibl o gyrff cyhoeddus eraill, ar yr amod nad yw buddiannau'n gwrthdaro. Byddai modd gofyn i asiantaethau priodol y DU ddarparu arbenigedd ategol hefyd, gyda'r syniad o greu perthynas gyfatebol ei natur.

3.3.5 Er bod y Grŵp Gorchwyl am lenwi'r bylchau yn y strwythurau llywodraethu amgylcheddol yn sgil Brexit, nid oedd yn gweld unrhyw reswm pam fod rhaid efelychu gwaith y Comisiwn Ewropeaidd yn unig. Yn hytrach, roedd am weld corff a fyddai'n gydnaws â thirwedd gyhoeddus bresennol Cymru. Pan fu i'r Is-grŵp Ffurf adolygu'r swyddogaethau, gwelodd fod gweithredu'r gyfraith a pholisïau amgylcheddol yn fwy effeithiol i wella'r amgylchedd wrth wraidd pob un o'r swyddogaethau. Nid oes unrhyw gorff fel y cyfryw yng Nghymru sy'n gyfrifol am ysgwyddo'r swyddogaethau hyn mewn ffordd gyfannol i oruchwylio gweithgareddau cyrff cyhoeddus Cymru. I gyflawni swyddogaethau fel monitro, adrodd ac adolygu camau gweithredu ac adroddiadau sy'n bodoli eisoes, mae angen i'r corff gael cylch gwaith gorfodi clir. Gan fod yr holl swyddogaethau a bennwyd yn cynnwys rhai agweddau o orfodi, tybiwyd bod rhyw rinwedd mewn cael un corff i gyflawni pob un ohonynt yn hytrach na'u gwahanu. Cydnabu'r grŵp fod angen gwneud mwy o waith i fapio unrhyw feysydd lle y gallai swyddogaethau orgyffwrdd â swyddogaethau cyrff cyhoeddus eraill. Bydd angen egluro'r sefyllfa cyn i'r Comisiwn newydd ddechrau ar ei waith.

3.3.6 Ar ôl hynny, cafwyd cryn drafodaeth am natur ymarferol y gwaith goruchwylio a gorfodi, yn enwedig pan ddaeth yr Is-grŵp Ffurf a'r Is-grŵp Swyddogaethau ynghyd. Cytunwyd y gall fod angen diffinio'r swyddogaeth weithredu yn ofalus, ond y bydd angen i'r corff graffu i weld a yw pwerau'r gyfraith amgylcheddol ddatganoledig yn cael eu

defnyddio'n gywir ac yn effeithiol. Gall fod angen ystyried ymhellach sut y mae hyn yn cydweddu â gallu'r corff newydd i gynnal ymchwiliadau. **Fel rhan o unrhyw swyddogaeth orfodi, bydd angen egluro sut a phryd y bydd gweithgareddau, gan gynnwys ymdrin â chwynion, yn cael eu huwchgyfeirio yn wyneb bygythiadau argyfyngus i'r amgylchedd. Er y gallai'r Comisiwn benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun, gall fod angen sail statudol ar y pwerau i uwchgyfeirio.**

3.3.7 Cafwyd cryn drafodaeth am gwmpas pwerau'r Comisiwn ac, yn enwedig, y cyrff y bydd y pwerau hyn yn berthnasol iddynt. Nodwyd mai 'awdurdodau cyhoeddus' ['public authorities'] yw'r term a ddefnyddir ym Mil y DU. Roedd rhai aelodau'n tybio bod hon yn rhestr eithriadol o hir o gyrff a allai gynnwys awdurdodau nad ydynt yn ymwneud fawr ddim â materion amgylcheddol o ddydd i ddydd. Tybiwyd y gall fod modd goresgyn y broblem drwy eiriad priodol sy'n cyfeirio at awdurdodau sy'n cyflawni swyddogaethau o ran yr amgylchedd.

3.3.8 Un o'r prif bwyntiau trafod oedd y graddau y gall fod angen defnyddio cosbau i ddwyn mater i derfyn, a sut y bydd gwaith y Comisiwn yn ffitio i mewn i system llysoedd Cymru a Lloegr. O'r dechrau'n deg, mynegwyd y dymuniad y **gallai'r Comisiwn gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ond tybiwyd y gall fod angen i'r Comisiwn roi hysbysiadau i sicrhau cydymffurfiaeth os bydd dulliau mwy cymodlon yn methu.** Gallai'r rhain fod yn seiliedig ar bwerau sy'n bodoli eisoes dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008. Mae'r rhain yn caniatáu rhoi hysbysiadau i fynnu cydymffurfiaeth â'r gyfraith, i adfer yr amgylchedd, ac i atal llygru pellach (hysbysiadau stop, cydymffurfio ac adfer). Gellir cytuno ar ymgymeriadau gorfodi hefyd i warantu'r camau unioni. Yn y pen draw, fodd bynnag, gall y rheoleiddiwr dan Ddeddf 2008 erlyn, ac fe gafwyd cryn drafodaeth ynghylch a ddylai unrhyw gamau a gymerir gan y Comisiwn gael eu hategu gan ddirwyon, yn y modd y'u defnyddir gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn achosion yn erbyn Aelod-wladwriaethau'r UE am dorri cyfraith yr UE.

3.3.9 Roedd yr Athro Richard Macrory, a ddaeth i'r cyfarfod ar y cyd rhwng yr Is-grŵp Ffurf a'r Is-grŵp Swyddogaethau, yn tybio, yn ymarferol, fod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r llysoedd ac felly y dylai fod yn ddigon estyn y rhwymedïau cyffredin sy'n gysylltiedig ag adolygiad barnwrol heb fod angen dirwyon a fyddai, pa un bynnag, yn cael eu talu i'r Trysorlys. Gall y rhwymedïau sy'n deillio o adolygiad barnwrol gynnwys dyfarnu

iawndal mewn achosion priodol, yn ogystal â gorchmynion sy'n dileu penderfyniadau neu'n gorchymyn camau i'w cymryd. Gallai'r Uwch Dribiwnlys ddefnyddio'i bwerau cyffredin o ran dirmyg llys pe na châi penderfyniad ei barchu, felly byddai modd ategu camau gorfodi drwy roi cosbau ariannol. Derbyniodd y rhan fwyaf o aelodau'r Grŵp y dull hwn o weithredu, ond nid oedd rhai aelodau'n cytuno â'r Athro Macrory, ac roeddent yn dal i fynegi pryderon am y bwerau mwy cyfyngedig sydd ar gael i'r Uwch Dribiwnlys. Mae'r Grŵp cyfan yn derbyn nad yw'r cosbau a gynigir fan hyn ar yr un lefel â'r rheini a oedd ar gael o'r blaen dan drefn yr Undeb Ewropeaidd.

3.3.9 Roedd y Grŵp yn tybio y byddai materion yn cael eu trin â'u trafod yn well o fewn system y tribiwnlysoedd. Mae cymal 35 o Fil yr Amgylchedd 2020 yn cyflwyno'r posibilrwydd o adolygiad amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys. Yn unol â'r cymal hwnnw, bydd adolygiad amgylcheddol yn adolygu—

“(a) alleged conduct of the authority that is described in the decision notice as constituting a failure to comply with environmental law; or

(b) alleged conduct of the authority occurring after the notice was given that is similar, or is related, to the conduct described in the notice.”

Mae'r Grŵp yn croesawu'r **prosesau i gynnal adolygiadau amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys y gellir eu cymhwyso (mae'n gobeithio) i drefn orfodi Cymru.**

### **3.4 Hawliau Confensiwn Aarhus**

3.4.1 Un mater olaf sy'n eistedd rhwng llywodraethu ac egwyddorion ond a restrwyd dan y pennawd Llywodraethu gan y Grŵp yw'r hawliau dan Gonfensiwn Aarhus. Fel rheol, cyfeirir at Gonfensiwn Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop fel Confensiwn Aarhus ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Prosesau Penderfynu, a Mynediad at Gyfiawnder o ran Materion Amgylcheddol (1998). Mae Erthygl 1 o Gonfensiwn Aarhus yn datgan:

“In order to contribute to the protection of the right of every person of present and future generations to live in an environment adequate to his or her health and well-being, each party shall guarantee the rights of

- *access to information,*

- *public participation in decision-making, and*
- *access to justice*

in environmental matters in accordance with the provisions of this Convention.”

3.4.2 Mae'r rhestr yn cynnwys yr hyn a elwir yn gyffredin yn dri philer Confensiwn Aarhus. Nid egwyddorion mohonynt fel y cyfryw ond hawliau a roddir i ddinasyddion. Llofnodwyd Confensiwn Aarhus gan yr UE ar ran yr Aelod-wladwriaethau, ac mae rhai o'i ddarpariaethau, yn enwedig o ran gwybodaeth a chyfranogiad, yn ymddangos nawr yng nghyfraith amgylcheddol yr UE (a ddargedwir). Bu i'r DU gadarnhau'r Confensiwn hwn ym mis Chwefror 2005. Fel y gwelsom uchod, roedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Bil drafft yr Amgylchedd (Llywodraethu ac Egwyddorion) yn cynnwys yr hawliau hyn mewn cyfres o egwyddorion i'w cynnwys yn y datganiad o egwyddorion amgylcheddol, er nad ydynt yn ymddangos bellach ym Mil 2020. Gellir dadlau nad oes angen eu cynnwys gan fod y DU yn ysgwyddo rhwymedigaethau dan Gytuniad i sicrhau bod dinasyddion yn cael yr hawliau hyn. Serch hynny, mae cwestiwn yn codi o ran a oes budd i'w gael o ailddatgan y tri philer hyn yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu newydd Cymru. Mae'r strwythurau llywodraethu newydd a eglurir uchod yn ymwneud i raddau helaeth â darparu gwybodaeth amgylcheddol, annog chyfranogiad mewn prosesau penderfynu amgylcheddol, a darparu camau unioni yn ôl y gofyn. O'r herwydd, roedd y grŵp yn teimlo y **dylid datgan a thanlinellu hawliau Confensiwn Aarhus mewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn i'r Comisiwn oruchwylio'r modd y mae'r hawliau hyn yn gweithredu yng Nghymru.**

### 3.5 Crynodeb

3.5.1 Roedd y Grŵp Gorchwyl yn ffafrio sefydlu Comisiwn yr Amgylchedd fel corff annibynnol gyda phanel o arbenigwyr i'w gynorthwyo yn ôl y gofyn. Bydd yn cyflawni swyddogaethau amrywiol, gan ddechrau drwy ymdrin â chwynion a rhoi cyngor, cyn mynd ati i ymgymryd â gwaith gorfodi ar ôl craffu ac ymchwilio'n briodol (gweler 3.3.8 uchod). Bydd y Comisiwn yn adolygu'r ffordd y mae'r gyfraith amgylcheddol ddatganoledig yn gweithredu yng Nghymru drwy ei swyddogaeth 'weithredu', a bydd yn ymgymryd â gwaith monitro ehangach ac yn ymateb i bolisiau amgylcheddol yng Nghymru, gan ddefnyddio'r strwythurau presennol yn ôl y gofyn. Yn ychwanegol at adroddiad blynyddol, bydd yn gallu paratoi adroddiadau arbenigol am faterion systemig sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r

gyfraith amgylcheddol yn gweithio ac yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Bydd hefyd yn ysgwyddo swyddogaeth i oruchwylio'r amcanion a'r egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru, a bydd yn cydweithio â chyrff llywodraethu eraill yn y DU fel y bo'n briodol. Tybiwyd bod lle i ddatgan hawliau Confensiwn Aarhus ochr yn ochr â'r egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu newydd.

#### **4 Casgliad**

O ystyried buddiannau amrywiol y rhanddeiliaid a oedd yn aelodau o'r Grŵp Gorchwyl, mae'r canfyddiadau hyn o reidrwydd yn gyfaddawd. Serch hynny, cafwyd cryn gonsensws ar lawer o'r materion, a gwnaed ymgais bob amser i weithio mewn ffordd a oedd yn parchu'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r ymarfer ymgynghori. O ran rhai o'r pwyntiau manwl, mae rhai materion y bydd angen eu hystyried ymhellach o hyd. Serch hynny, roedd y Grŵp yn gytûn o ran y prif faterion, ac mae'n dal i fod yn gytûn. Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gadael bwllch yn system llywodraethu amgylcheddol Cymru, a dylid cau'r bwllch hwnnw. Nid glynu'n slafaidd wrth strwythurau'r UE, nac efelychu'r gwaith a wnaed o ran Bil y DU, yw'r ffordd orau o wneud hyn, hyd yn oed pe bai hynny'n bosibl. Yn hytrach, rydym yn edrych ymlaen at greu strwythur sy'n cydweddu'n briodol â phensaerniaeth bresennol Cymru ac sy'n ailddatgan yr ymrwymiad hirsefydlog, ers datganoli, i warchod ac i wella amgylchedd Cymru.

Robert Lee

Chwefror 2020

## Argymhellion

1. Pan na fydd systemau goruchwyllo cyfraith yr UE yn berthnasol mwyach, mae perygl y bydd bwlch llywodraethu'n agor o ran cymhwysio a gorfodi'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru, a dylid unioni'r sefyllfa honno. (paragraff 1.1.1)
2. Mae angen wynebu'r diffygion y cyfeirir atynt yn y papur hwn erbyn 1 Ionawr 2021. Bydd angen deddfu i roi'r argymhellion ar waith, ac os ydym am osgoi mesurau dros dro cymhleth a lletchwith, mae'r Grŵp Gorchwyl yn argymhell yn gryf y dylid deddfu yn unol â'r amserlen hon. (paragraff 1.1.2)
3. Dylai amcan wedi'i eirio'n ofalus ddatgan yr uchelgais ar gyfer amgylchedd Cymru ac eistedd uwchlaw'r bensaernïaeth llywodraethu amgylcheddol bresennol. (paragraff 2.1.1)
4. Dylai'r pedair prif egwyddor amgylcheddol a geir yn Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd osod sylfaen ar gyfer cyfraith a pholisi Cymru; yr egwyddorion hynny yw: yr egwyddor ragofalus; yr egwyddor atal; yr egwyddor y dylid, fel blaenoriaeth, unioni difrod amgylcheddol yn y tarddle; a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. (paragraff 2.2.1)
5. Dylai'r egwyddorion hyn barhau i osod sylfaen ar gyfer cyfraith a pholisi Cymru. (paragraff 2.2.6)
6. Nid oes angen llunio datganiad polisi o'r egwyddorion hyn. (paragraff 2.2.7)
7. Gall fod cyfle i ategu eglurder ac effeithiolrwydd integreiddio yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, o bosibl yn yr amcan cyffredinol, i hybu camau i integreiddio gofynion amgylcheddol mewn meysydd polisi eraill, a'r ffordd y mae hyn yn cael ei gyfleu ar draws deddfwriaeth amgylcheddol Cymru. (paragraff 2.2.2)
8. Dylai'r pedair egwyddor (a'r amcan cyffredinol) fod yn berthnasol i Weinidogion Cymru pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau i lunio polisiau a deddfau er mwyn iddynt osod sail ar gyfer deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol. (paragraff 2.2.8)
9. Dylai'r dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus Cymru pan fydd y cyrff hynny'n cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. (paragraff 2.3.1)

10. Dylai'r corff llywodraethu newydd fynd i'r afael â'r naw swyddogaeth hyn: cyngori; ymdrin â chwynion; ymchwilio; craffu; gorfodi; gweithredu; adrodd; goruchwyllo'r egwyddorion; a ffurfio partneriaethau. (paragraffau 3.2.1; 3.2.2)
11. Er y bydd angen staff amser llawn ar y corff newydd (er enghraifft i ymchwilio i gwynion a'u datrys), gall fod modd sefydlu cronfa o arbenigwyr, fel panel arbenigwyr, i'w ategu. (paragraff 3.2.4)
12. Bydd angen i unrhyw gorff newydd fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud gan y Senedd. Bydd angen cyllideb sicr arno. (paragraff 3.3.1)
13. Byddai modd cyfansoddi Comisiwn yr Amgylchedd ar raddfa ac mewn modd sy'n briodol i Gymru. Gallai alw ar y Panel Arbenigwyr i ychwanegu at ei allu i gyflawni ei swyddogaethau, gan ganiatáu iddo weithio mewn ffordd hyblyg a chaniatáu i'r corff alw ar ystod eang o arbenigwyr. (paragraff 3.3.4)
14. Gallai'r Comisiwn gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ond tybiwyd y gall fod angen i'r Comisiwn roi hysbysiadau i sicrhau cydymffurfiaeth os bydd dulliau mwy cymodlon yn methu. (paragraff 3.3.8)
15. Fel rhan o unrhyw swyddogaeth orfodi, bydd angen egluro sut a phryd y bydd gweithgareddau, gan gynnwys ymdrin â chwynion, yn cael eu huwchgyfeirio yn wyneb bygythiadau argyfyngus i'r amgylchedd. Er y gallai'r Comisiwn benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun, gall fod angen sail statudol ar y pwerau i uwchgyfeirio. (paragraff 3.3.6)
16. Gallai prosesau i gynnal adolygiadau amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys gael eu cymhwyso i drefn orfodi Cymru. (paragraff 3.3.9)
17. Dylid datgan a thanlinellu hawliau Confensiwn Aarhus mewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn i'r Comisiwn oruchwyllo'r modd y mae'r hawliau hyn yn gweithredu yng Nghymru. (paragraff 3.4.2)



**Atodiad A:** Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol

<b>Robert Lee (Cadeirydd)</b>	<b>Prifysgol Birmingham</b>
<b>Alan Hunt neu Sarah Williams</b>	<b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b>
<b>Anne Meikle</b>	<b>WWF Cymru</b>
<b>Annie Smith</b>	<b>RSPB</b>
<b>Gary Rees neu Eve Read</b>	<b>Dŵr Cymru</b>
<b>Huw Rhys Thomas</b>	<b>NFU Cymru</b>
<b>Lori Frater</b>	<b>Llywodraeth Cymru</b>
<b>Neville Rookes</b>	<b>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</b>
<b>Steve Ormerod</b>	<b>Prifysgol Caerdydd</b>
<b>Tegryn Jones</b>	<b>Parciau Cenedlaethol Cymru</b>
<b>Ludivine Petetin</b>	<b>Prifysgol Caerdydd</b>
<b>Matthew Quinn</b>	<b>Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy</b>

## **Atodiad B:** Cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol

### **Cylch gorchwyl**

#### **Cefndir**

Bu ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd' yn ystyried materion sy'n ymwneud ag effaith ymadawiad y DU â'r UE ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol a ddarperir ar hyn o bryd dan Gytuniadau'r UE. Sbardunodd yr ymgynghoriad sgwrs agored â rhanddeiliaid am rôl egwyddorion amgylcheddol a strwythurau llywodraethu Cymru sy'n adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac yn gydnaws â'r systemau atebolrwydd sy'n bodoli eisoes.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 9 Mehefin, a'r cam nesaf yw defnyddio'r adborth hwnnw i lunio opsiynau ar gyfer y system newydd.

Gan fod hwn yn fater cymhleth, gall cydweithio â rhanddeiliaid helpu i roi'r agenda bwysig hon ar waith, ac mae Llywodraeth Cymru am sefydlu Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol sy'n dod â phrofiad ac arbenigedd sefydliadau sy'n rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ymhellach.

Bydd y Grŵp hwn yn gallu sefydlu is-grwpiau ar bynciau penodol, defnyddio ymchwil sy'n bodoli eisoes a chomisiynu ymchwil, a llunio opsiynau i'w hystyried gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

#### **Pwrpas y Grŵp**

Pwrpas y Grŵp fydd rhoi cyngor arbenigol a thechnegol drwy ystyried a llunio opsiynau posibl i'w cyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn meysydd lle na cheir cytundeb cyffredinol o ran y dull o weithredu neu feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, a hynny er mwyn:

- Mynd i'r afael â'r bylchau o ran egwyddorion amgylcheddol, gan adeiladu ar fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru;
- Datblygu'r prif elfennau ymhellach i greu fframwaith llywodraethu amgylcheddol cydlynol ac effeithiol i Gymru sy'n cydweddu â'r systemau sy'n bodoli eisoes;
- Llunio mesurau dros dro posibl lle y gall fod angen mesurau o'r fath.

#### **Amcanion y Grŵp**

Amcanion y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol fydd rhoi cyngor annibynnol i swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu cynigion ymhellach i fynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg yn sgil ymadael â'r UE a:

- Llunio rhaglen waith o feysydd i'w hystyried a'u datblygu ymhellach;

- Llundio adroddiad neu adroddiadau am wahanol becynnau'r rhaglen waith a bennir gan y Grŵp;
- Rhoi diweddariadau am hynt y gwaith i Grŵp Bord Gron y Gweinidog ar Brexit.

### Aelodaeth

Bydd yr Athro Bob Lee o Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Birmingham, yn cadeirio'r Grŵp Gorchwyl, a bydd Lori Frater o Lywodraeth Cymru'n dirprwyo.

Aelodaeth y Grŵp fydd:

Aelod	Sefydliad
Alan Hunt neu Sarah Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Annie Smith	RSPB
Anne Meikle	WWF
Eve Read neu Gary Rees	Dŵr Cymru
Steve Ormerod	Prifysgol Caerdydd
Ludivine Petetin	Prifysgol Caerdydd
Neville Rookes	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Matthew Quinn	Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy
Tegryn Jones	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Huw Rhys Thomas	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

### Dull o weithio

Bydd y Grŵp yn cydweithio mewn gwahanol ffyrdd, naill ai wyneb yn wyneb a/neu fel tîm rhithwir, i gynghori Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol at y grŵp craidd, gellir cynnull is-grwpiau i ymgymryd â darnau penodol o waith. Bydd aelodaeth y grwpiau hynny'n hyblyg, a bydd modd gwahodd cynrychiolwyr eraill i ategu'r amcanion. Anogir yr aelodau i bennu cydweithwyr yn eu sefydliadau a allai ddod ag arbenigedd ychwanegol i'r trafodaethau ac ategu aelodaeth yr is-grwpiau.

### Prif dasgau:

- Llundio rhaglen waith ac amserlen i'w chyflawni;
- Sefydlu is-grwpiau, lle bo'n berthnasol, i helpu i gyflawni'i waith ac i bennu'r meysydd lle mae angen mwy o arbenigedd;
- Adolygu gwaith yr is-grwpiau;
- Comisiynu, lle bo'n briodol, ymchwil a all ategu gwaith y grwpiau;

- Llunio opsiynau sy'n ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol a threfniadau llywodraethu, fel yr amlinellir yn y rhaglen waith, gan adeiladu ar yr ymgynghoriad.

## Ffyrdd o weithio

Yn unol ag egwyddorion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ac egwyddorion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd y Grŵp yn:

- Cydweithio – ar draws sefydliadau, ond hefyd â rhanddeiliaid eraill ac is-grwpiau bord gron eraill;
- Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol;
- Ceisio cael hyd i atebion integredig hirdymor, ac ystyried canlyniadau gweithredoedd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir;
- Gweithio ag uniondeb, gan herio'i gilydd yn gwrtais i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol/well.

Dylid cyfiawnhau pob un o allbynnau ac argymhellion y grŵp hwn drwy gyfeirio at sylfaen dystiolaeth gadarn neu dylid tynnu sylw at gyfyngiadau'r dystiolaeth os nad oes sylfaen o'r fath ar gael.

## Amserlen

Bydd y Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol yn rhoi adroddiad i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig erbyn dechrau 2020.

Rydym yn disgwyl y bydd y grŵp craidd am gwrdd yn rheolaidd fel yr amlinellir yn Nhabl 2.

Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y gofyn i gael trafodaeth bellach am y testunau hynny neu destunau eraill a allai ddod i'r amlwg.

Cyfarfod	Tasg	Dyddiad
1	Sefydlu'r aelodaeth a'r rhaglenni gwaith, a phennu'r is-grwpiau gofynnol a'u harweinwyr.	18 Gorffennaf 2019
2	Diweddariad am hynt y gwaith, ac adolygu'r rhaglen waith.	Medi 2019
3	Diweddariad am hynt y gwaith, ac adolygu'r rhaglen waith.	Hydref 2019
4	Diweddariad am hynt y gwaith, ac adolygu'r rhaglen waith.	Tachwedd 2019
5	Diweddariad am hynt y gwaith, ac adolygu'r rhaglen waith.	Rhagfyr 2019

6	Cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r grŵp gytuno arno.	Ionawr/Chwefror 2020
---	---	----------------------